



# **Deddf Hapchwarae 2005**

## **Datganiad Polisi Trwyddedu**

Ionawr 2010

## Rhagair

Mae Polisi Trwyddedu cyntaf Cyngor Sir y Fflint o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 yn weithredol ers tair blynedd yn awr.

Mae'r Cyngor wedi cydweithio'n effeithiol â'r diwydiant, ac asiantaethau sy'n bartneriaid iddo, i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Hapchwarae a'r Awdurdodau Cyfrifol amrywiol i sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo ac, yn benodol, bod mesurau ar waith i ddiogelu plant a phobl eraill sy'n agored i niwed ac i sicrhau na fydd neb yn camfanteisio arnynt drwy gamblo.



Y Cynghorydd Bernie Attridge  
Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu

Ionawr 2010

Cyngor Sir y Fflint  
Deddf Hapchwarae 2005  
Datganiad Polisi Trwyddedu

	<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad</b> .....		1
1.1 Amcanion Trwyddedu.....		1
1.2 Gwybodaeth am Gyngor Sir y Fflint .....		1
1.3 Ymgynghori .....		2
1.4 Mathau o Drwyddedau.....		2
1.5 Safleoedd Trwyddedadwy a Hawlenni .....		2
1.6 Egwyddorion Cyffredinol.....		3
1.7 Corff Cynghori er Gwarchod Plant rhag Niwed .....		4
1.8 Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw.....		4
1.9 Cyfnewid Gwybodaeth.....		5
<b>2. Deddfwriaeth, Polisiâu a Strategaethau</b> .....		
2.1 Deddfwriaeth.....		5
2.2 Cysylltiad â Pholisiâu Cynllunio .....		5
2.3 Strategaethau Cenedlaethol.....		6
2.4 Strategaethau a Pholisiâu Lleol.....		6
2.5 Integreiddio Strategaethau .....		6
<b>3. Gwneud Penderfyniadau</b> .....		6
3.1 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor .....		6
3.2 Dirprwyo Cyfrifoldebau dros Benderfyniadau.....		7
3.3 Adolygu Trwyddedau.....		7

3.4	Amodau Trwyddedau .....	8
<b>4.</b>	<b>Safonau Lleol .....</b>	<b>8</b>
4.1	Ceisiadau .....	8
4.2	Asesu Angen .....	8
4.3	Amodau .....	8
4.4	Gorfodaeth.....	9
4.5	Casinos .....	9
4.6	Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded .....	9
4.7	Gwybodaeth Ychwanegol.....	10
4.8	Loterïau Cymdeithasau Bach.....	10
<b>5.</b>	<b>Atal trosedd ac anrhefn .....</b>	<b>10</b>
<b>6.</b>	<b>Sicrhau gamblo teg ac agored .....</b>	<b>11</b>
<b>7.</b>	<b>Diogelu plant a phobl eraill sy'n agored i nwed .....</b>	<b>11</b>
7.1	Plant .....	11
7.2	Pobl sy'n agored i niwed.....	11
<b>8.</b>	<b>Cwynion yn Erbyn Safle Trwyddedig.....</b>	<b>12</b>
<b>Atodiad A</b>	<b>Map o Sir y Fflint.....</b>	<b>13</b>
<b>Atodiad B</b>	<b>Tabl Dirprwyo Swyddogaethau Trwyddedu .....</b>	<b>14</b>
<b>Atodiad C</b>	<b>Manylion Cysylltu'r Awdurdodau Perthnasol.....</b>	<b>16</b>
<b>Atodiad D</b>	<b>Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw .....</b>	<b>17</b>
<b>Atodiad E</b>	<b>Geirfa .....</b>	<b>18</b>
<b>Atodiad F</b>	<b>Categoriâu o beiriannau hapchwarae.....</b>	<b>20</b>
<b>Atodiad G1</b>	<b>Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn arcêd ...</b>	<b>21</b>
<b>Atodiad G2</b>	<b>Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn siopau betio....</b>	<b>22</b>
<b>Atodiad G3</b>	<b>Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn neuaddau bingo...</b>	<b>23</b>



# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Amcanion Trwyddedu

O dan Ddeddf Trwyddedu 2005, mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â'i wahanol swyddogaethau trwyddedu er mwyn hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu a ganlyn:

- **Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anrhefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anrhefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i hybu trosedd;**
- **Sicrhau bod hapchwarae'n cael ei wneud mewn dull teg ac agored; a**
- **Diogelu plant a phobl eraill sy'n agored i niwed neu rhag i neb gam-fanteisio arnynt drwy hapchwarae.**

O dan Ddeddf 2005, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi 'Datganiad Polisi Trwyddedu' sy'n gosod allan y polisiau y bydd y Cyngor yn eu gweithredu'n gyffredinol i hyrwyddo amcanion trwyddedu wrth benderfynu ar geisiadau a gyflwynwyd o dan y Ddeddf.

Paratowyd y 'Datganiad Polisi Trwyddedu' hwn gan ystyried darpariaethau'r Ddeddf Hapchwarae, Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ac ymatebion a gafwyd i'r broses ymgynghori.

Daw'r polisi i rym ar 31 Ionawr 2010 a chaiff ei adolygu yn ôl y galw ac o leiaf bob tair blynedd o'r dyddiad y cafodd ei fabwysiadu.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am ganiatáu trwyddedau safle ar gyfer -

- casinos
- neuaddau bingo
- safleoedd betio
- canolfannau hapchwarae oedolion
- canolfannau adloniant teuluol

Y Cyngor sydd hefyd yn gyfrifol am ddsbarthu amrywiaeth o hawlenni ar gyfer gweithgareddau hapchwarae ar raddfa lai.

## 1.2 Gwybodaeth am Gyngor Sir y Fflint

- Sir y Fflint yw'r adwy i Gymru yn y gogledd-ddwyrain i Gymru ac mae'n ffinio â siroedd Wrecsam, Dinbych, gorllewin Swydd Caer a Chaer. Aber Afon Dyfrdwy yw'r ffin y gogledd-ddwyrain. Môr Iwerddon yw'r ffin yng ngogledd-orllewin eithaf y sir, er bod trefi glan môr y Rhyl a Phrestatyn ychydig y tu allan i'r sir, ac mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn rhedeg drwy'r ardal adeiledig o amgylch Caer, yn Saltney. Yn y de-orllewin, mae bryniau Clwyd yn creu ffin bendant â Sir Ddinbych.
- Mae Sir y Fflint yn cynnwys 49,891 hectar gan gynnwys Afon Dyfrdwy a 43,464 hectar ac eithrio'r aber. Mae ystadegau Cyfrifiad 2001 yn dangos bod 148,594 o bobl yn yr ardal, a dyma'r sir fwyaf ond chwech yng Nghymru o ran poblogaeth (dim ond

Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Chaerffili sydd â phoblogaeth fwy). Mae map o'r sir yn Atodiad A.

- Mae hyn yn rhoi poblogaeth o 342 o bobl fesul cilomedr sgwâr ac, ar gyfartaledd, mae dwysedd y boblogaeth ddwywaith yn fwy nag ydyw yng ngogledd Cymru ac yng Nghymru gyfan. Mae dwysedd poblogaeth Sir y Fflint, ar gyfartaledd, yn cyfateb i ddwysedd poblogaeth Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, ond yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan. O'i chymdogion agos, dim ond yn ardaloedd dinesig Cilgwri ac Ellesmere Port y mae'r boblogaeth yn fwy dwys.
- Mae poblogaeth Sir y Fflint wedi cynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, fel y gwnaeth yn Sir Ddinbych a Wrecsam. Mae'r cynnydd yn fwy nag yn unman arall yn y rhanbarth, yn fwy na'r cynnydd yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd a drwy'r DU gyfan. Mae'n werth nodi y bu gostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth Cilgwri ac Ynys Môn, ac y bu'r cynnydd yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau yn y rhanbarth ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

### 1.3 Ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad priodol ac mae'r ymatebion wedi'u cynnwys yn y polisi hwn lle'r oedd hynny'n berthnasol

### 1.4 Mathau o Drwyddedau

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan y polisiâu y bydd y Cyngor yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau neu hysbysiadau a gyflwynir ynghylch:

- Trwyddedau safle
- Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
- Hysbysiadau Defnydd Achlysurol
- Hawlenni sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf
- Cofrestriadau sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf

### 1.5 Safleoedd Trwyddedadwy a Hawlenni

Mae'r polisi hwn yn ymwneud a'r holl safleoedd trwyddedadwy, hysbysiadau, hawlenni a chofrestriadau y mae darpariaethau'r Ddeddf yn gymwys iddynt, sef:-

- Casinos
- Neuaddau Bingo
- Safleoedd Betio
- Traciau
- Canolfannau Hapchwarae Oedolion
- Canolfannau Adloniant Teuluol â Thrwydded
- Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded
- Clybiau Hapchwarae
- Hapchwarae am Wobrau a Hawlenni Hapchwarae am Wobrau

- Hysbysiadau Defnydd Achlysurol
- Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
- Cofrestru loteriau cymdeithasau bach

## 1.6 Egwyddorion Cyffredinol

Ni fydd dim yn y Datganiad Polisi hwn yn:

1. tanseilio hawl unrhyw unigolyn i wneud cais o dan y Ddeddf am drwyddedau amrywiol ac i ofyn i'r cais gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun; nac yn
2. atal neb rhag cyflwyno sylwadau ar unrhyw gais neu rhag gofyn am adolygiad o drwydded neu hawlen os caniateir iddynt wneud hynny o dan y Ddeddf.

Yn man cychwyn o ran penderfynu ar geisiadau fydd caniatáu'r cais heb amodau. Dim ond pan fydd angen amodau i fodloni gofynion yr amcanion trwyddedu y byddant yn cael eu hystyried, ac ni fydd unrhyw amodau a osodir yn or-feichus a bydd yn gymesur â graddfa'r cais a'r 'risgiau' cysylltiedig. Yn gyffredinol, ni chredir bod angen amodau os oes deddfwriaeth arall yn ymdrin â nhw eisoes.

Wrth benderfynu ar gais i ganiatáu trwydded safle neu i adolygu trwydded safle ai peidio, ystyrir pa mor agos yw'r eiddo at ysgolion, canolfannau oedolion sy'n agored i niwed, neu ardaloedd preswyl lle mae nifer fawr o deuluoedd â phlant yn byw. Bydd lleoliad safle etc a ystyrir yn dibynnu ar faint a natur y safle hapchwarae dan sylw. Fodd bynnag, bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Felly, os gall ymgeisydd ddangos yn effeithiol sut y gallant dawelu unrhyw bryderon yn ymwneud â'r drwydded, bydd hyn yn cael ei ystyried.

Mae'n bosibl y gosodir amodau ar drwyddedau a fydd yn delio â materion sydd o dan reolaeth deiliad y drwydded.

Wrth ystyried gosod amodau ar unrhyw drwydded, bydd y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd yn y safle ar y rhai sy'n byw, yn gweithio neu'n ymwneud â gweithgareddau arferol yn yr ardal dan sylw. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, yn ôl rheoliad, wedi sicrhau bod amodau penodol yn gysylltiedig â thrwydded safle, a fydd naill ai'n amodau 'gorfodol' neu'n amodau 'diofyn'. Wrth benderfynu ar y cais, mae'n bosibl na fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y galw disgwylidig am y cyfleusterau y mae'r safle'n cynnig eu darparu.

Yn y cyswllt hwn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod nifer o ddulliau eraill ar gael, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, i ddelio ag ymddygiad afreolus a all ddigwydd gerllaw safle trwyddedig, gan gynnwys:

- Rheoliadau cynllunio
- Mesurau parhaus i greu amgylchedd diogel a glân yn yr ardaloedd hyn mewn perthynas â busnesau lleol, yr adran drafndiaeth ac adrannau eraill y Cyngor
- Cyswllt rheolaidd â'r Heddlu ynghylch gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol



- Pŵer yr Heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu breswylwyr neu fusnesau lleol eraill i wneud cais am adolygiad o'r drwydded

Bydd yn rhaid i wrthwynebwyr gysylltu eu gwrthwynebiad â mwy nag un o'r Amcanion Trwyddedu, fel y nodir yn Rhan 1.1 uchod, cyn bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gallu ei ystyried.

Os bydd unigolyn, p'un a yw cais yn effeithio'n uniongyrchol arnynt ai peidio, neu p'un a yw'n byw yng nghyffiniau'r safle trwyddedadwy ai peidio, yn cyflwyno'i hun fel rhywun sy'n cynrychioli lles pobl yr ardal, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, fel arfer, yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth eu bod yn cynrychioli pobl eraill.

Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu, bydd y Cyngor yn rhoi sylw priodol i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da rhwng unigolion o hil wahanol.

### 1.7 Corff Cyngori er Gwarchod Plant rhag Niwed

Fel yr awdurdod trwyddedu, mae Cyngor Sir y Fflint yn dynodi'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol fel yr awdurdod cymwys i ddarparu cyngor ar warchod plant rhag niwed.

Sefydlwyd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol (Pwyllgor Diogelu Plant yr Ardal gynt) yn Sir y Fflint dan ganllawiau'n ymwneud â Deddf Plant 2004 a chaiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

### 1.8 Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r canlynol cyn cynhyrchu'r Datganiad Polisi Trwyddedu drafft hwn:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Y Bwrdd Diogelu Plant Lleol
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint
- Cynrychiolwyr deiliaid gwahanol drwyddedau yn y Sir y bydd y polisi hwn yn effeithio arnynt
- Aelodau etholedig Cyngorau Tref a Chymuned
- Grwpiau Ffydd
- Grwpiau gwirfoddol a chyrrff cymunedol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Busnesau hapchwarae
- Unigolion a busnesau y bydd hapchwarae awdurdodedig yn yr ardal yn debygol o effeithio arnynt

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r rhestr uchod, ewch i Atodiad D.

## 1.9 Cyfnewid Gwybodaeth

Wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau dan DDeddf Hapchwarae 2005, bydd y Cyngor yn cyfnewid gwybodaeth berthnasol â chyrrff rheoliadol eraill a bydd yn sefydlu protocolau i'r perwyl hwn. Wrth gyfnewid gwybodaeth o'r fath, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y DDeddf Hapchwarae, y ddeddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth yn unol â pholisïau presennol y Cyngor.

Bydd manylion cysylltu'r unigolion hynny sy'n cyflwyno sylwadau a manylion y sylwadau hynny ar gael i'r ymgeiswyr er mwyn eu trafod, ac os cynhelir gwrandawriad, byddant yn cael eu cyhoeddi fel rhan o ddogfen gyhoeddus. Bydd unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau neu'n gwneud cais am adolygu trwydded safle yn cael gwybod y bydd y manylion hynny'n cael eu datgelu.

Mae manylion cysylltu awdurdodau perthnasol ar gael yn Atodiad C.

## 2. Deddfwriaeth, Polisïau a Strategaethau

### 2.1 Deddfwriaeth

Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu dan Deddf Hapchwarae 2005, rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried deddfwriaethau eraill, gan gynnwys:

- Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1988
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd)
- Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Diogelwch Tân) 2005
- Deddf Trwyddedu 2003

Fodd bynnag, nid bwriad y polisi yw dyblygu deddfwriaeth a threfniadau rheoleiddio presennol sydd eisoes yn gosod cyfrifoldebau ar gyflogwyr a gweithredwyr.

### 2.2 Cysylltiad â Pholisïau Cynllunio

Wrth benderfynu ar gais, dan delerau'r Ddeddf, ni ellir ystyried caniatâd cynllunio neu adeiladu nac unrhyw gyfyngiadau cynllunio.

Nid ystyrir bod galw heb ei fodloni yn faen prawf wrth benderfynu ar gais am drwydded safle o dan DDeddf Hapchwarae 2005.

Mae cyflwyno trwydded safle dros dro yn broses wahanol i'r broses o gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Rhaid gofyn am ganiatâd cynllunio a rheoli adeiladu, a'i gael, cyn y gall unrhyw ddatblygiad ddigwydd.

### 2.3 Strategaethau Cenedlaethol

Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio ymgymryd â'r cyfrifoldebau a nodwyd yn strategaethau eraill y Llywodraeth, os ydynt yn effeithio ar amcanion y swyddogaeth drwyddedu.

#### 2.4 Strategaethau a Pholisïau Lleol

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan gyfeirio at bolisïau lleol eraill a fabwysiadwyd, gan gynnwys y canlynol:

- Gweledigaeth, Amcanion a Blaenoriaethau Strategol y Cyngor
- Strategaeth Diogelwch Cymunedol
- Polisi Gorfodi

#### 2.5 Integreiddio Strategaethau

Drwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r datganiad polisi hwn, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn integreiddio'n briodol â strategaethau atal trosedd, strategaethau cynllunio, trafniadaeth, twristiaeth a diwylliant.

### 3. Gwneud Penderfyniadau

#### 3.1 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Bydd Is-bwyllgor o dri chynghorydd o'r Pwyllgor Trwyddedu yn eistedd i wrando ar geisiadau lle derbyniwyd sylwadau gan bobl sydd â budd yn y cais, ac awdurdodau cyfrifol. Ni fydd Cynghorwyr Wardiau yn eistedd ar banel sy'n trafod cais yn ymwneud â'u ward.

Os bydd cynghorydd sy'n aelod o'r pwyllgor trwyddedu'n cyflwyno sylwadau ynglŷn â thrwydded ar ran rhywun sydd â chysylltiad â'r cais, er lles rheolaeth dda, byddant yn eu datgymhwyso'u hunain o fod ag unrhyw gysylltiad â'r penderfyniad ynghylch y drwydded dan sylw.

Rhoddir rhesymau clir a phendant am bob penderfyniad a wneir am drwydded gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Bydd y penderfyniad, a'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw, yn cael eu hanfon at y sawl a wnaeth y cais a'r rhai a gyflwynodd sylwadau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

Bydd swyddogion trwyddedu'r Cyngor yn delio â'r holl geisiadau trwyddedu eraill pan na fydd sylwadau wedi dod i law, neu pan fo sylwadau wedi cael eu cyflwyno a bod y partiön cysylltiedig yn cytuno nad oes angen gwrandawriad.

Swyddogion y Cyngor fydd yn penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn wamal neu'n flinderus, a nhw fydd yn penderfynu a ddylai sylwadau neu geisiadau am adolygu trwyddedau gael eu cyfeirio at yr Is-Bwyllgor Trwyddedu ai peidio. Os gwrthodir sylwadau, bydd y sawl a gyflwynodd y sylwadau hynny'n cael eglurhad ysgrifenedig am hynny.

#### 3.2 Dirprwyo cyfrifoldebau dros benderfyniadau

Bydd y Cyngor yn delio ag amrywiaeth eang o benderfyniadau a swyddogaethau trwyddedu ac mae wedi sefydlu Pwyllgor Trwyddedu at y diben hwn.

Gan werthfawrogi'r angen i ddarparu gwasanaeth cyflym, effeithiol a chost-effeithiol i'r holl bartïon sy'n gysylltiedig â'r broses drwyddedu, mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo rhai penderfyniadau a swyddogaethau penodol.

Bydd llawer o'r penderfyniadau a'r swyddogaethau yn hollol weinyddol o ran eu natur a bydd caniatáu ceisiadau anghynhennus, gan gynnwys er enghraifft, y trwyddedau a'r hawlenni hynny lle na chafwyd unrhyw sylwadau yn eu cylch, yn cael eu dirprwyo i Swyddogion y Cyngor.

Mae'r Tabl yn Atodiad B yn gosod allan y penderfyniadau a'r swyddogaethau y cytunwyd i'w dirprwyo i'r Pwyllgor, yr Is-bwyllgor a'r Swyddogion Trwyddedu.

Nid yw'r broses ddirprwyo hon yn atal Swyddogion rhag cyfeirio achos at yr Is-bwyllgor, yn atal yr Is-bwyllgor rhag cyfeirio achos at y Pwyllgor Llan, na'n atal y Pwyllgor rhag ei gyfeirio at y Cyngor llawn, os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol oherwydd amgylchiadau unrhyw achos penodol.

### 3.3 Adolygu Trwyddedau

Bydd y Cyngor yn ymgymryd ag adolygiad o drwydded safle pan fydd wedi cael cais ffurfiol am adolygiad o dan y Ddeddf, sy'n berthnasol i un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu. Gallai sylwadau ymwneud â honiadau bod gweithgareddau, gan gynnwys y canlynol, yn digwydd:

- Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a phrosesu enillion troseddau cyffuriau'n anghyfreithlon
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu drylliau tân Anghyfreithlon
- Defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu i werthu pornograffi'n anghyfreithlon
- Defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer troseddu cyfundrefnol
- Defnyddio safle trwyddedig i drefnu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu gamdriniaeth rywiol
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau sydd wedi'u smyglo
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau sydd wedi'u dwyn
- Peryglu plant, pobl ifanc neu unigolion sy'n agored i niwed

Rhoddir ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau perthnasol oni bai:

- bod y seiliau'n wamal
- bod y seiliau'n flinderus
- bod y seiliau'n amherthnasol
- bod y seiliau'n debyg iawn i'r seiliau a ddyfynnwyd mewn cais blaenorol sy'n gysylltiedig â'r un eiddo

- bod y seiliau'n debyg iawn i'r sylwadau a wnaed pan gafodd cais am drwydded safle ei ystyried neu
- ni fydd y seiliau'n peri i'r Awdurdod Trwyddedu ddiddymu neu wahardd trwydded nac i ddileu, addasu neu osod amodau ar y drwydded safle

Gall yr Awdurdod Trwyddedu hefyd benderfynu adolygu trwydded safle ei hun.

### 3.4 Amodau Trwyddedau

Er mwyn ceisio osgoi dyblygu trefniadau statudol eraill, ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar drwydded oni bai eu bod yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Ni fydd angen gosod amodau os oes deddfwriaeth ar gael eisoes i ymdrin â'r materion dan sylw.

## 4. Safonau Lleol

### 4.1 Ceisiadau

Ni chaiff neb wneud cais am drwydded safle oni bai bod ganddo eisoes drwydded weithredu sy'n caniatáu iddo ymgymryd â'r gweithgaredd y mae angen drwydded safle ar ei gyfer, neu oni bai ei fod wedi gwneud cais am drwydded weithredu ac yn aros am benderfyniad.

Wrth wneud cais am drwydded safle, neu i drosglwyddo neu amrywio trwydded safle, rhaid hefyd gyflwyno asesiad sy'n dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r holl Amcanion Trwyddedu ar ffurf Atodlen Weithredu ysgrifenedig. Gall y sawl sy'n gwneud cais ofyn i'r Cyngor am yngor ynglŷn â natur yr wybodaeth i'w darparu.

Bydd y Cyngor yn cynghori ynghylch fanylder y wybodaeth y dylid ei darparu a fydd yn gymesur â maint a natur y cais a gyflwynir.

### 4.2 Asesu Angen

Nid ystyrir bod galw heb ei fodloni'n faen prawf wrth benderfynu ar gais am drwydded safle dan DDeddf Hapchwarae 2005.

### 4.3 Amodau

Gosodir amodau ar drwyddedau sy'n gymesur â'r busnes, y sefydliad neu'r unigolyn dan sylw. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ac yn gosod amodau sy'n berthnasol i amgylchiadau pob achos unigol.

Bydd yr amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded safle'n adlewyrchu strategaethau atal trosedd lleol perthnasol, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai'n briodol darparu camerâu teledu cylch cyfyng mewn safleoedd penodol.

### 4.4 Gorfodaeth

Egwyddorion yr Awdurdod Trwyddedu hwn yw y bydd yn cael ei arwain gan Ganllaw'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol a bydd yn ymdrechu i fod:

- Yn gymesur: dim ond pan fo angen y dylai rheoleiddwyr ymyrryd, dylai atebion i broblemau fod yn briodol i'r risg a wynebwr, a dylai'r costau gael eu nodi a'u cadw mor isel â phosibl;
- Yn atebol: rhaid i reoleiddwyr fedru cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn agored i archwiliad cyhoeddus;
- Yn gyson: rhaid i'r rheolau a'r safonau fod yn gydlynol a rhaid eu gweithredu'n deg;
- Yn dryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, a chadw'r rheolau'n syml ac yn hawdd eu deall; a bydd yn
- Yn benodol: dylai'r rheolau ganolbwyntio ar y broblem a chreu cyn lleied o sgil-ffeithiau â phosibl.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymgeisio i osgoi dyblygiad efo cyfundrefnau rheoliadol eraill cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn mabwysiadu rhaglen archwilio'n seiliedig ar risg yn ôl:

- Natur y gweithgareddau hapchwarae sy'n digwydd ar y safle
- Lleoliad y safle mewn perthynas ag ysgolion, etc.
- Y trefniadau a sefydlwyd gan y rheolwyr i fodloni'r amcanion trwyddedu.

Prif rôl yr awdurdod trwyddedu hwn o ran gorfodaeth o dan DDeddf Hapchwarae 2005 fydd sicrhau y cydymffurfir â'r trwyddedau safle a'r hawlenni eraill y mae'n ei awdurdodi. Y Comisiwn Hapchwarae fydd corff gorfodi'r trwyddedau gweithredu a'r trwyddedau personol. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn delio â phryderon am wneuthuriad peiriannau hapchwarae, nac am gyflenwi neu drwsio'r peiriannau, ond bydd yn cael gwybod am y pryderon hyn.

Caiff penderfyniadau'n ymwneud â gorfodaeth eu gwneud yn unol â Pholisi Gorfodaeth yr Is-adran Diogelu'r Cyhoedd.

#### 4.5 Casinos

Does dim penderfyniad wedi'i wneud i wahardd casinos yn y Sir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'i hawl i adolygu'r sefyllfa hon ac fe allai, rywdro yn y dyfodol, benderfynu peidio â chaniatáu casinos neu, os oes casinos trwyddedig eisoes yn gweithredu, gallai benderfynu peidio â chaniatáu unrhyw gasinos ychwanegol.

Os bydd y Cyngor yn dewis gwneud penderfyniad o'r fath, penderfyniad y Cyngor Llawn fydd hwn yn dilyn trafodaeth ystyrlon a rhoddir rhesymau dros y penderfyniad.

#### 4.6 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Os nad oes gan safle drwydded safle gall wneud cais i'r awdurdod trwyddedu am drwydded i gael peiriannau hapchwarae.

Dim ond os yw'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teuluol Didrwydded, ac yr ymgynghorwyd â phrif swyddog yr Heddlu ynghylch y cais, y caiff cais am hawlen ei ganiatáu. Bydd yn rhaid ystyried a yw'r rhai sy'n cyflwyno'r cais yn addas e.e. a oes ganddynt gollfarnau a fyddai'n eu gwneud yn anaddas i redeg canolfan adloniant teuluol; a pha mor addas yw lleoliad y safle, a materion sy'n ymwneud ag anrhefn.

#### 4.7 Gwybodaeth Ychwanegol

- Mae manylion categorïau peiriannau hapchwarae yn Atodiad F.
- Mae atodlen o'r peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn gwahanol fathau o safleoedd yn Atodiad G.

#### 4.8 Loterïau Cymdeithasau Bach

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dilyn canllaw'r Comisiwn Hapchwarae mewn perthynas â loterïau cymdeithasau bach.

### 5. Atal Trosedd ac Anrhefn

Wrth benderfynu ar geisiadau, bydd y Cyngor yn ystyried a fydd caniatáu trwydded safle yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

Yn ei Ganllawiau drafft ar gyfer awdurdodau lleol, nododd y Comisiwn Hapchwarae mai ystyr 'anrhefn' yw gweithgaredd sy'n fwy difrifol ac afreolus na dim ond niwsans. Wrth ystyried a oedd aflonyddwch yn ddigon difrifol i'w alw'n anrhefn, mae angen ystyried e.e. a oedd angen cymorth gan yr Heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rhai a allai ei weld neu'i glywed. Mae'r awdurdod hwn yn cytuno â'r datganiad hwn.

Anogir ymgeiswyr i drafod mesurau atal trosedd yn eu heiddo â'r Cyngor a/ neu Heddlu Gogledd Cymru cyn cyflwyno cais ffurfiol.

O ran ystyried ceisiadau am drwyddedau, bydd y Cyngor yn ystyried y canlynol yn benodol:

1. Cynllun y safle;
2. Yr hyfforddiant a roddir i staff o ran mesurau atal trosedd sy'n addas i'r eiddo hwnnw;
3. Nodweddion diogelwch ffisegol ar y safle. Gallai hyn gynnwys lle mae'r til arian wedi'i osod neu safon y teledu cylch cyfyng;
4. Os oes cyfyngiadau oedran ar y safle, y trefniadau sydd ar waith i wirio oedran cwsmeriaid;
5. Y tebygolrwydd y byddai problemau'n codi'n ymwneud â thrais; y drefn gyhoeddus neu blismona pe bai trwydded yn cael ei chaniatáu.

## **6. Sicrhau Hapchwarae Teg ac Agored**

Yn gyffredinol, ni fyddai'r Comisiwn yn disgwyl i awdurdodau trwyddedu sicrhau bod hapchwarae'n digwydd mewn dull teg ac agored gan mai mater yw hwn i naill ai rheolwyr y busnes hapchwarae, ac felly'n destun trwydded weithredu, neu mae'n fater sy'n ymwneud ag addasrwydd a gweithredoedd unigolyn, ac felly'n destun trwydded bersonol, a chyfrifoldeb y Comisiwn Hapchwarae yw'r ddau fater hwn.

Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cael gwybod am bryderon ynghylch hapchwarae sy'n digwydd yn groes i'r amcan drwyddedu hwn, mae'n bosibl y bydd yn rhannu'r pryderon hyn â'r Comisiwn Hapchwarae.

## **7. Amcan Diogelu Plant a Phobl eraill sy'n Agored i Niwed**

### **7.1 Plant**

Ac eithrio amgylchiadau prin, ni chaniateir plant a phobl ifanc yn y safleoedd hapchwarae hynny sy'n addas ar gyfer oedolion yn unig.

Bydd y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar hysbysebu ar gyfer eiddo o'r fath fel nad yw cynnyrch hapchwarae'n cael eu hanelu at blant neu'n cael eu hysbysebu mewn ffordd sy'n eu gwneud yn hynod atyniadol i blant.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol ar unrhyw gais os oes unrhyw bryderon ynglŷn â mynediad i blant.

Bydd y Cyngor yn beirniadu rhinweddau pob cais ar wahân cyn penderfynu gosod amodau i ddiogelu plant ar gategoriâu penodol. Gallai hyn gynnwys amodau fel:

1. Goruchwyllo mynedfeydd;
2. Gwahanu safleoedd hapchwarae oddi wrth safleoedd lle mae plant yn mynd yn aml;
3. Goruchwyllo peiriannau hapchwarae mewn safleoedd hapchwarae nad ydynt ar agor i oedolion yn unig.

Mae Deddf 2005 yn darparu Cod Ymarfer ar fynediad i blant a phobl ifanc i gasino, a bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu i sicrhau y caiff y gyfraith ei gorfodi'n briodol.

### **7.2 Pobl sy'n agored i niwed**

Nid yw'r Cyngor yn ceisio gwahardd unrhyw grwpiau penodol o oedolion rhag hapchwarae yn yr un modd ag y mae'n ceisio gwahardd plant, ond bydd yn cymryd yn ganiataol, at ddibenion rheoleiddio, bod 'pobl sy'n agored i niwed' yn cynnwys:

- pobl sy'n hapchwarae mwy nag y dymunant
- pobl sy'n hapchwarae mwy o arian nag y gallant ei fforddio



- pobl sy'n methu gwneud penderfyniad deallus a chytbwys ynglŷn â hapchwarae o ganlyniad i nam meddyliol, dylanwad alcohol neu gyffuriau.

## **8. Cwynion yn Erbyn Safleoedd Trwyddedig**

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn eiddo trwyddedig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag amcanion trwyddedu y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn y lle cyntaf, anogir codi'r gŵyn yn uniongyrchol â'r daliwr trwydded neu fusnes dan sylw er mwyn datrys y broblem yn lleol.

Os yw person sydd â budd yn y mater wedi cyflwyno sylwadau dilys ynglŷn â safle trwyddedig, neu wedi cyflwyno cais dilys am adolygiad o drwydded, gall y Cyngor, yn gyntaf, argymhell cyfarfod cymodi i drafod ac egluro'r materion sy'n peri pryder.

Ni fydd y broses hon yn golygu bod neb yn colli'r hawl i ofyn i'r pwyllgor trwyddedu ystyried unrhyw wrthwynebiad dilys, neu fod deiliad trwydded yn colli'r hawl i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

Caiff yr holl sylwadau perthnasol ystyriaeth briodol oni bai yr ystyrir eu bod yn wamal, yn flinderus neu'n ailadroddus.



## Atodiad B

### Tabl yn dangos sut y dirprwyir y Swyddogaethau Trwyddedu

Mater i'w Drafod	Cyngor Llawn	Is-Bwyllgor Trwyddedu	Swyddogion
Polisi trwyddedu tair blynedd	X		
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	X		
Pennu ffioedd – lle bo hynny'n briodol			X
Cais am drwydded safle		Os cafwyd sylwadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl	Os na chafwyd sylwadau / sylwadau wedi eu tynnu nôl
Cais i amrywio trwydded		Os cafwyd sylwadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl	Os na chafwyd sylwadau / sylwadau wedi eu tynnu nôl
Cais i drosglwyddo trwydded		Lle cafwyd sylwadau gan y Comisiwn	Os na chafwyd sylwadau gan y Comisiwn
Cais am ddatganiad o ddarpariaeth		Os cafwyd sylwadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl	Os na chafwyd sylwadau / sylwadau wedi eu tynnu nôl
Adolygu trwydded safle		X	
Cais am hawlen clwb hapchwaræ/ peiriannau hapchwaræ mewn clwb		Os cafwyd sylwadau ac ni chawsant eu tynnu'n ôl	Os na chafwyd sylwadau / sylwadau wedi eu tynnu nôl
Canslo hawlen gemau clwb/ peiriannau hapchwaræ mewn clwb		X	

<b>Mater i'w Drafod</b>	<b>Cyngor Llawn</b>	<b>Is-Bwyllgor Trwyddedu</b>	<b>Swyddogion</b>
Ceisiadau am hawlenni eraill			X
Canslo hawlen peiriant hapchwarae ar safle drwyddedig			X
Ystyried hysbysiad defnydd dros dro			X
Penderfyniad i roi gwrth hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro		X	
Penderfynu a oes gan berson fudd yn y mater			X
Penderfynu a yw sylwadau'n berthnasol			X
Penderfynu a yw sylwadau' wamal, yn flinderus neu'n ailadroddus			X

### Manylion Cysylltu'r Awdurdodau Perthnasol

**Cyngor Sir y Fflint:**

Yr Adran Drwyddedu  
Adran Diogelu'r Cyhoedd  
Cyngor Sir y Fflint  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
CH7 6NH

**Y Comisiwn Hapchwarae:**

Victoria House  
Victoria Square  
Birmingham  
B2 4BP

**Heddlu Gogledd Cymru:**

Swyddog Trwyddedu  
Heddlu Gogledd Cymru  
Pencadlys Rhanbarth y Dwyrain  
Bodhyfryd  
Wreccsam  
LL12 7BW

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:**

Rheolwr Diogelwch y Sir  
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd  
Cymru  
Swyddfa Ardal Sir y Fflint  
Uned 4, Parc Busnes Acorn  
Ffordd Aber  
Y Fflint  
CH6 5YN

**Bwrdd Diogelu Plant:**

Pennaeth Gwasanaethau Plant  
Cyngor Sir y Fflint  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
CH7 6NH

**Cyllid a Thollau EM:**

HM Revenue & Customs  
National Registration Unit  
Portcullis House  
21 India Street  
Glasgow  
G2 4PZ

### Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Aelodau Etholedig, Cyngor Sir y Fflint

Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir y Fflint

Y Comisiwn Hapchwarae

Heddlu Gogledd Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Cyngor Sir y Fflint

Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir y Fflint

Cyllid a Thollau EM

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint

William Hill ; Ladbrooks ; Coral ; Carefree Racing

Corbett Bookmakers

Association of British Bookmakers

Mecca Bingo; The Bingo Association

Crown Leisure Limited; Leisure Link

City Vending UK Limited

Gamestec Leisure Limited

Parkers Leisure Holdings Limited

Poppleston Allen Licensing Solicitors

Gamcare

Grwpiau Ffydd

Cyngor Ar Bopeth

Mudiadau gwirfoddol/ cyrff cymunedol yn gweithio gyda phlant/ oedolion sy'n agored i niwed.

### Geirfa

Yn y Datganiad Polisi hwn, diffinnir y geiriau a'r termau canlynol fel a ganlyn:

Amcanion Trwyddedu:	fel y diffiniwyd yn adran 1.1 uchod
Ardal:	Ardal Cyngor Sir y Fflint – gweler y map yn Atodiad A.
Awdurdodau Cyfrifol:	at ddibenion DDeddf Hapchwarae 2005, mae'r canlynol yn awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â safleoedd: <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Yr Awdurdodau Trwyddedu (Cyngor Sir y Fflint)</li><li>▪ Y Comisiwn Hapchwarae</li><li>▪ Heddlu Gogledd Cymru</li><li>▪ Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</li><li>▪ Pennaeth Cynllunio, Cyngor Sir y Fflint</li><li>▪ Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir y Fflint</li><li>▪ Bwrdd Diogelu Plant: Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint</li><li>▪ Cyllid a Thollau EM</li></ul>
Awdurdod Trwyddedu:	Cyngor Sir y Fflint
Ceisiadau:	Ceisiadau am Drwydded neu Hawlen fel y'u diffinnir yn adran 1.4 uchod.
Cod Ymarfer:	Unrhyw god ymarfer perthnasol o dan adran 24 o DDeddf Hapchwarae 2005.
Cyngor:	Cyngor Sir y Fflint
Deddf:	DDeddf Hapchwarae 2005.
Hysbysiadau:	Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol
Safle:	unrhyw le ac mae'n cynnwys cerbyd, llong neu strwythur symudol
Gorfodol:	unrhyw amod benodol a ddarparwyd gan reoliadau i fod ynghlwm wrth drwydded

Person â budd:	<p>at ddibenion Deddf Hapchwarae 2005, mae gan berson fudd mewn trwydded safle os yw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n rhoi'r drwydded neu y cyflwynir y cais iddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ yn byw yn ddigon agos at yr eiddo, mae'n debygol y bydd y gweithgareddau awdurdodedig effeithio arno;</li> <li>▪ â chysylltiadau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt; gallai'r rhain hefyd gynnwys er enghraifft, cymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd.</li> <li>▪ yn cynrychioli pobl sy'n bodloni unrhyw un o'r uchod; er enghraifft Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid. Wrth ystyried a oes gan berson fudd yn y drwydded, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinwedd ei hun gan gofio'r amgylchiadau perthnasol gan gynnwys y rheini a nodir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i Awdurdodau Lleol.</li> </ul>
Rheoliadau:	Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Hapchwarae 2005
Trwyddedau:	fel y'u diffinnir yn adran 1.4 uchod.



**Categoriâu o Beiriannau Hapchwarae**

<b>Categori</b>	<b>Uchafswm yr arian betio</b>	<b>Uchafswm y wobr</b>
A	Dim uchafswm	Dim uchafswm
B1	£2	£4,000
B2	£100 (lluosyddion10)	£500
B3	£1	£500
B3A	£1	£500
B4	£1	£250
C	£1	£70
D dim gwbor ariannol (ar wahân i beiriannau craen)	30p	£8
D dim gwbor ariannol (peiriant craen)	£1	£50
D gwobr ariannol	10p	£5
D cyfuniad o wobr ariannol a gwobr heb fod yn arian (ar wahân i beiriant gwthio arian neu raeadr arian)	10p	£8 (dim mwy na £5 ohono'n wobr ariannol)
D cyfuniad o wobr ariannol a gwobr heb fod yn arian (peiriant gwthio arian neu raeadr arian)	10p	£15 (dim mwy nag £8 ohono'n wobr ariannol)

## Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn neuaddau arcêd

### Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn arcêd

Mae peiriannau hapchwarae yn cael eu rhannu'n categorïau'n ôl uchafswm yr arian betio a ganiateir ac uchafswm y wobr. Caniateir nifer benodol o beiriannau hapchwarae o bob categori mewn arcêd:

	Categori			
	B3	B4	C	D
<b>Canolfan hapchwarae i oedolion</b>	Dim mwy ba 4 peiriant hapchwarae o categori B3 neu B4		Faint a fynnir o beiriannau o categori C neu D	
<b>Canolfan adloniant teuluol</b> (â thrwydded safle)			Faint a fynnir o beiriannau o categori C neu D	
<b>Canolfan adloniant teuluol</b> (â hawlen)			Faint a fynnir o beiriannau o categori C neu D	

Rhaid i'r holl beiriannau hapchwarae mewn canolfan hapchwarae i oedolion neu ganolfan adloniant teuluol gydymffurfio â'r Safonau Technegol Peiriannau Hapchwarae perthnasol – Mehefin 2007.

### Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn siopau betio

Mae peiriannau hapchwarae yn cael eu rhannu'n categorïau'n ôl uchafswm yr arian betio a ganiateir ac uchafswm y wobr. Os oes gan safle drwydded betio cyffredinol (safonol), ynghyd â thrwydded safle betio, caniateir hyd at bedwar peiriant hapchwarae o unrhyw un o'r categorïau a ganlyn:

	Categori				
	B2	B3	B4	C	D
<b>Safleoedd betio a thraciau lle caiff betiau eu cronni</b>	Hyd at 4 peiriant o gategorïau B2 - D				

Caniateir peiriannau hapchwarae ar y safleoedd hyn, ond rhaid iddynt i gyd gydymffurfio â Safonau Technegol Peiriannau Hapchwarae'r Comisiwn Hapchwarae a rhaid trefnu i gwmni cymeradwy gynnal profion arnynt i gadarnhau hyn.

## Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn neuaddau bingo

Mae peiriannau hapchwarae yn cael eu rhannu'n categorïau'n ôl uchafswm yr arian betio a ganiateir ac uchafswm y wobwr. Caniateir i weithredwr bingo trwyddedig gael hyd at 8 peiriant hapchwarae o gategori B3 neu B4, a faint a fynnir o gategori C neu D

	Categori			
	B3	B4	C	D
<b>Neuaddau bingo</b>	Dim mwy nag 8 peiriant o gategori B3 neu B4		Fiant a fynnir o beiriannau o gategori C neu D	

Rhaid i'r holl beiriannau hapchwarae mewn neuaddau bingo gydymffurfio â Safonau Technegol Peiriannau Hapchwarae'r Comisiwn Hapchwarae a rhaid trefnu i gwmni cymeradwy gynnal profion arnynt i gadarnhau hyn.

### Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn tafarndai a chlybiau

#### Peiriannau hapchwarae a ganiateir mewn tafarndai, clybiau a safleoedd eraill cymwys sydd â thrwydded i werthu alcohol

Mae peiriannau hapchwarae yn cael eu rhannu'n categorïau'n ôl uchafswm yr arian betio a ganiateir ac uchafswm y wobr.

	Categori		
	B4	C	D
<b>Clybiau neu sefydliadau lles glowyr (â hawlen)</b>	Dim mwy na 3 pheiriant o gategori B3A neu B4 i D		
<b>Safleoedd cymwys sydd â thrwydded i werthu alcohol</b>		1 neu 2 beiriant o gategori C neu D	
<b>Safleoedd cymwys sydd â thrwydded i werthu alcohol (â hawlen peiriant hapchwarae)</b>		Nodir y nifer ar yr hawlen	

#### Hawlenni i gael peiriannau hapchwarae ychwanegol

Yn ogystal â'u hawl awtomatig, gall tafarndai a safleoedd eraill sydd â thrwydded i werthu alcohol wneud cais i'w hawdurdod trwyddedu lleol am hawlen peiriant hapchwarae sy'n caniatáu iddynt gael peiriannau hapchwarae ychwanegol. Nodir nifer y peiriannau a ganiateir ar yr hawlen.